YSGOL ABERCONWY

Tachwedd 24 ain, 2022

Annwyl Rieni/Warcheidwad,

Wel, mae'r daith i weld Pantomeim Cymraeg – 'Y Bachgen Bach Gwyrdd' yn Theatr Pontio, Bangor wedi bod mor boblogaidd nes bod gennym ni rŵan ddau ddyddiad! Mae pawb yn edrych ymlaen yn arw!

Bydd disgyblion o ddosbarthiadau 7HC, 7HM a 7LLC yn mynd i weld y panto fore Llun, Rhagfyr 12fed. Byddwn ni'n cychwyn o'r ysgol am 9y.b. a bydd y disgyblion yn ôl erbyn amser cinio.

Bydd disgyblion o ddosbarthiadau 7CC, 7CM, 7DC, 7DM a 7LLM yn mynd i weld y panto b'nawn Mawrth, Rhagfyr 13eg. Bydd y disgyblion yn cael amser cinio buan am 11.45y.b. ac mae trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer unrhyw blant sy'n cael cinio o'r ysgol. Byddwn ni'n cychwyn o'r ysgol am 12.15 y.p. ac yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol ar gyfer y bysiau am 3.10y.p.

Cofiwch mai diwrnodau ysgol arferol fydd rhain a bydd disgwyl i'ch plentyn wisgo gwisg ysgol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r daith, cysylltwch â mi ar luned.parry@aberconwy.conwy.sch.uk

Yr eiddoch yn gywir,

L. Parry

Mrs Luned Parry

Dirprwy Bennaeth Yr Adran Gymraeg a Chyd-lynydd y Siarter Iaith



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE